

Alirocumab ar gyfer trin hypercolesterolemia sylfaenol a dyslipidemia cymysg

Mehefin 2016

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir alirocumab (Praluent) fel triniaeth bosibl ar gyfer hypercolesterolemia sylfaenol neu dyslipidemia cymysg ymhlith rhai pobl, ond dim ond os ydynt eisoes wedi cymryd y dos uchaf posibl o therapïau lleihau lipidau.

Mae'r argymhellion yn dibynnu ar y math o glefyd, y risg o glefyd cardiofasgwlaidd, a chrynodiad unigolyn o golesterol lipoprotein dwysedd isel. Gweler [tabl 1 yn y canllawiau](#).

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych hypercolesterolemia sylfaenol neu dyslipidemia cymysg, a bod eich meddyg o'r farn mai alirocumab yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai alirocumab fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd alirocumab nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Y cyflwr a'r driniaeth

Termau meddygol yw hypercolesterolemia sylfaenol a dyslipidemia cymysg sy'n awgrymu bod lefelau colesterol unigolyn yn rhy uchel. Gall colesterol uchel gynyddu'r risg o glefyd y galon.

Mae sawl math gwahanol o gyffuriau lleihau colesterol ar gael sy'n gweithio mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys statinau ac ezetimibe.

Math o gyffur a elwir yn wrthgorff monoclonaid yw alirocumab (Praluent). Dros amser, ni fydd derbynyddion penodol yn yr afu yn gweithio cystal a byddant yn cymryd llai o golesterol o'r gwaed. Mae alirocumab yn helpu i sicrhau bod y derbynyddion hyn yn parhau i weithio ac felly yn lleihau lefelau colesterol.

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [HEART UK – Yr Elusen Golesterol](#), 0345 450 5988
- [Sefydliad Prydeinig y Galon](#), 0300 330 3311

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1990-1